Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Y Cynghorydd / Councillor Ellen ap Gwynn
Arweinydd y Cyngor /
Leader of the Council
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron. SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

**At sylw**:
Y Cynghorydd Emlyn Dole,
Cadeirydd Cyd-Bwyllgor ERW /
Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin
a
Mr.Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg,
Cyngor Sir Gaerfyrddin

| | |
|---|---|
| Dyddiad<br>Date | 22 Mawrth, 2021 |
| Gofynnwch am<br>Please ask for | Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn |
| Llinell uniongyrchol<br>Direct line | 01545 570881 |
| Fy nghyf<br>My ref | EaG/SAD |
| Ebost<br>Email | Ellen.apGwynn@ceredigion.llyw.cymru |

*Drwy ebost yn unig*

Annwyl Emlyn a Gareth,

**Rhanbarth ERW – cais am gomisynu gwasanaethau o Ebrill 1af 2021 hyd at Awst 31ain 2021**

Fel yr ydych chi'n ymwybodol, ni fydd Cyngor Sir Ceredigion yn rhan o ranbarth ERW yn dilyn 31.3.21.

Mae ein cynlluniau ar gyfer Ebrill 1af 2021 ymlaen bellach wedi'u cymeradwyo gan y Llywodraeth ac yn cynnwys datblygu cyd-weithio gyda Chyngor Sir Powys ar rai blaenoriaethau ac agweddau o welliant addysgol.

Mae ychydig agweddau y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn hoffi eu comisynu gan ERW hyd at Awst 31ain 2021, gyda diddordeb pellach mewn parhau i'w comisynu oddi wrth yr endyd newydd wedi hynny. Yn benodol, yr agweddau hynny ydy:

- bod Pennaeth yr Uned Gyfeirio Disgyblion (PRU) yn parhau i fynychu rhwydwaith arbenigol y rhanbarth ar gyfer unedau cyfeirio. Rydyn ni ar ddeall mai cyfarfod rhwydwaith tymhorol ydy hynny a byddai Ceredigion yn talu am eu lle ar y rhwdywaith hwn - swm i'w drefnu;

- ymuno yn y broses o gymedroli rhanbarthol ar gyfer proffiliau Athrawon Newydd Gymhwyso yn nhymor yr Haf 2021;

- comisynu llefydd ar gyfer yr achrediad Uwch Gynorthwy-wyr dosbarth (HLTA). Mae tua 4 o gynorthwy-wyr dosbarth yn llwyddiannus i gael lle ar y cwrs hwn yn flynyddol ac felly byddai Ceredigion eisiau comisynu ar raddfa tâl y pen – swm i'w drefnu;

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Prif Weithredwr / Chief Executive : Eifion Evans
Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Corporate Directors : Barry Rees MBE
Caroline Lewis

- comisynu llefydd ar gyfer y rhaglen penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro. Byddai Ceredigion eisiau comisynu ar raddfa tâl y pen – swm i'w drefnu;

- comisynu llefydd ar gyfer yr achrediad CPCP. Ar hyn o bryd mae pedwar aelod o staff yn dilyn yr achrediad hwn a fydd yn dod i ben yn Ionawr 2022. Eto, byddai Ceredigion yn dymuno comisynu ar raddfa tâl y pen. Gan fod y LLywodraeth yn talu'r grant am CPCP fesul nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus i'r cwrs dylai'r ffi am hynny fod yn adlewyrchu'r swm a delir gan Llywodraeth Cymru.

Hyderaf y gall y Cyd-Bwyllgor ystyried y cais uchod yn ffafriol.

Yn gywir,



Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn
Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion